# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

## Ysgol Tregarth
## Tregarth,
## LL57 4PG

**Rhif yr Ysgol: 6613029**

**Dyddiad yr Arolygiad: 24/09/07**

**gan**

**Merfyn Lloyd Jones**
**78218**

**Dyddiad Cyhoeddi: 26/11/2007**

**O dan rif contract Estyn: 1101307**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

96. Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i ddatblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion trwy weithredu rhaglen gynhwysfawr sydd hefyd yn cynnwys gofynion addysg bersonol a chymdeithasol. Mae wedi'i hintegreiddio'n effeithiol

i waith y cwricwlwm a chaiff ddylanwad cadarnhaol ar ddysgu ac agweddau'r disgyblion.

97. Mae amser cylch, addysg grefyddol a thrafodaethau dosbarth am faterion cymdeithasol a moesol, yn rhan annatod o fywyd ysgol. Mae'r Cyngor Ysgol yn galluogi'r disgyblion i gymryd rhan yn ffurfiol mewn gwneud penderfyniadau. Mae'r profiadau hyn yn ymgyfoethogi addysg a datblygiad personol y disgyblion, ac yn eu paratoi i ddyfod yn aelodau cyfrifol o'u cymuned.

## Addysg grefyddol

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### Nodweddion da

185. Yng ngyfnod allweddol 1 a 2, mae'r disgyblion yn ymwybodol fod y Beibl yn lyfr sanctaidd. Mae ganddynt wybodaeth dda am storïau'r Beibl. Gallant adrodd hanesion o'r Hen Destament a'r Testament Newydd yn eu geiriau eu hunain. Wrth drafod rhai o ddamhegion yr Iesu eglurant eu harwyddocâd i ni heddiw.

186. Maent yn mynegi barn yn dda ar bynciau megis gofal a chyfeillgarwch, ac maent yn ymwybodol o amgylchiadau bywyd pobl sy'n llai ffodus na hwy eu hunain. Maent yn trafod yn hyderus y pwysigrwydd o warchod a gofalu am y byd a'u cyfrifoldeb nhw yn y broses.

187. Ysgrifennant weddïau personol o ansawdd da ac fe'u cyflwynant i eraill ac maent yn deall pwrpas gweddi.

188. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1, yn deall y ffordd Gristnogol o fyw. Maent yn ymwybodol o ddefodau'r Eglwys Gristnogol megis bedydd. Dônt i ddeall bod crefyddau arall heblaw Cristnogaeth yn cael eu harfer ar draws y byd.

189. Yng ngyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn deall mai Cristnogaeth yw prif grefydd Cymru a gallant siarad am rai nodweddion bywyd y Cristion. Maent yn gallu disgrifio gwasanaeth crefyddol yn effeithiol. Mae eu gwybodaeth o bwrpas addoldai yn ychwanegu llawer at eu gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion Cristnogol.

190. Mae eu gwybodaeth o grefyddau eraill yn datblygu'n dda a gallant drafod y prif nodweddion a'r ffordd o fyw. Medrant enwi a disgrifio gwahanol wrthrychau a ddefnyddir gan egluro eu pwrpas a'u hystyr.

191. Maent yn disgrifio nodweddion ym mywydau enwogion sydd wedi bod yn arweinwyr pwysig, megis Dewi Sant a'r Esgob William Morgan.

### Diffygion

192. Does dim diffygion arwyddocaol.